Gwasanaeth Carchardai
a Phrawf EF

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
Prif Arolygydd Prawf EF
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

23 Hydref 2025

Annwyl Martin,

**Adroddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ar arolygu Uned Gyflawni Prawf Dyfed Powys, Rhanbarth Cymru - Awst 2025**

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu i Uned Gyflawni Dyfed Powys, lle bu i chi wneud cyfanswm o bum argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a, chyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, bydd Penaethiaid yr Uned Gyflawni'n sicrhau y byddir yn cymryd camau i roi sylw iddynt, fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adolygu cyfleusterau cyfweld i sicrhau eu bod yn ddiogel, preifat ac yn arwain at gyfathrebu. Rhoddir sylw i faterion iechyd a diogelwch brys yn syth, gyda Phennaeth yr Uned Gyflawni'n parhau i weithio gyda Ystadau'r Weinyddaeth Gyfiawnder i flaenoriaethu gwelliannau i ystadau, yn unol â'r strategaeth genedlaethol.
- Cyflwyno rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i thargedu yn gysylltiedig â Safonau Cofrestru Proffesiynol, wedi'i ategu gan archwiliad sgiliau, i sicrhau fod hyfforddiant yn bodloni anghenion a nodwyd a dysgu'n cael ei gyfuno mewn ymarfer.
- Gwreiddio Archwiliadau Cadw Pobl yn Ddiogel yn ddull sicrwydd Haen 1 i yrru gwelliannau mewn asesu, cynllunio ac adolygu risg o niwed.
- Cryfhau trefniadau partneriaeth gyda Heddlu Dyfed Powys ac asiantaethau eraill, gan gynnwys edrych i mewn i weithredu System Awtomatig Robotaidd i brosesu ymholiadau ynghylch cam-drin domestig yn gyson ac effeithlon.

Er yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto yn Uned Gyflawni Dyfed Powys, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf yr isod:

- Bu i arolygwyr gydnabod ysgogiad ac ymrwymiad y tîm arweinyddiaeth, gyda staff yn dangos sgiliau cryf mewn ennyn diddordeb pobl ar brawf trwy gydol eu dedfryd.
- Cymeradwywyd natur weledol Pennaeth yr Uned Gyflawni ar draws ardal ddaearyddol eang, ochr yn ochr â gwreiddio dull gweithredu ffactorau dynol sy'n ategu tryloywder, her a llais staff.

- Roedd ymgysylltu â phobl ar brawf yn gyson yn gryfder ar draws gwaith rheoli dedfrydau, gydag ymarferwyr yn dangos tegwch, hyblygrwydd ac arfer cynllunio gref.
- Disgrifiwyd gweithgarwch cynllunio fel ymhlith y cryfaf a arsylwyd, yn adlewyrchu natur broffesiynol ac ymroddiad staff.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhelliad yr Arolygwr Prawf a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth y Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg,  y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Cymru

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru